**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 6/10/21</u>**

**<u>Cyfarfod rhithwir</u>**

**Yn bresennol**:

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Vikki Howells (Cadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Luke Fletcher (Is-gadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Huw Irranca-Davies | Aelod o'r Senedd |
| Peredur Owen Griffiths | Aelod o'r Senedd |
| Mark Isherwood | Aelod o'r Senedd |
| Holly Cross | Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian (CARE) |
| Robert Proctor | Ynni Cymunedol Cymru |
| Dan McCallum | Awel Aman Tawe/Egni Co-op |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Glenn Bowen | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| John Chown | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Karen Lewis | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Daniel Roberts | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Mike Erskine | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Ceri-Anne Fidler-Jones | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Melusi Moyo | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Ward Coster | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Hannah Morris | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Andrew Jenkins | Senedd Cymru (staff cymorth Aelod o'r Senedd) |
| Charlotte Knight | Senedd Cymru (staff cymorth Aelod o'r Senedd) |
| Dyfan Lewis | Ynni Cymunedol Cymru |
| Eirwen Malin | Wenvoe Forum |
| Eleri Cubbage | Senedd Cymru (staff cymorth Aelod o'r Senedd) |
| Harry Thompson | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Ian MacKinlay | Thinking The Future Ltd. |
| James Wright | Co-operatives UK |
| Robin Lewis | Senedd Cymru (staff cymorth Aelod o'r Senedd) |

**Cofnodion y Cyfarfod**

Aeth **Vikki Howells AS**, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, ati i ddechrau'r cyfarfod drwy drafod prosiectau ynni cymunedol a'u pwysigrwydd i Gymru o ran cyflawni sero net. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac mae wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw gwneud hynny mewn modd cynhwysol a chynaliadwy – yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae'n cyfeirio at 'ysbryd cydweithredu, nid cystadleuaeth.' Gall ynni cymunedol chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn drwy weithio gyda chymunedau i wella ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion, gan roi cyfle i bobl gyfrannu'n weithredol at sut mae eu cymunedau'n newid ac yn addasu.

Rhoddodd Vikki Howells AS drosolwg o'r sector, gan ddweud bod y sector ynni cymunedol eisoes yn tyfu yng Nghymru. Yn 2020, roedd yn cyflogi dros 79 o bobl, a chodwyd dros £4.4 miliwn mewn cyfranddaliadau cymunedol, ac roedd chwe sefydliad wedi gosod prosiectau trydan adnewyddadwy newydd ledled y wlad.

Yna cyflwynwyd y siaradwr cyntaf. Rhoddodd **Robert Proctor** o **Ynni Cymunedol Cymru** ragor o fanylion ynghylch pam mae sefydlu prosiectau ynni cymunedol yn ymdrech werth chweil, er gwaethaf y gwaith caled, y gwirfoddoli a'r amser y mae'n ei gymryd. Dywedodd fod y grwpiau hyn yn aml yn cael eu ffurfio fel Cymdeithasau Budd Cymunedol, felly mae 100 y cant o'r elw yn mynd i'r gymuned leol, ac yn cael ei reoli gan aelodau lleol. Mae'n gyfle i fuddsoddi a chreu rhywfaint o elw i bobl leol, ond mae hefyd yn gyfle hollbwysig i ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae gan y prosiectau rôl allweddol o ran cynhyrchu ynni gwyrdd ar lefel leol, ond maent hefyd yn creu manteision economaidd yn y cymunedau dan sylw – gan greu swyddi'n uniongyrchol drwy gontractwyr lleol a chadw'r gwerth hwnnw yn y gymuned.

Yna rhoddodd Rob drosolwg o'r adroddiad diweddar ar gyflwr y sector a gyhoeddwyd yn 2020, sydd ar gael yma. Mae'n dangos bod y sector yn tyfu yng Nghymru ac eisoes yn creu swyddi, yn cael effaith economaidd sylweddol ar gymunedau lleol, ac yn ffynhonnell bwysig o ynni gwyrdd. Cymru sydd â'r nifer uchaf o brosiectau ynni cymunedol y pen o blith holl wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy y gellir ei wneud i helpu'r sector i dyfu, fel hwyluso gwerthu'r ynni a gynhyrchir i'r gymuned leol, cysylltu â'r Grid Cenedlaethol (sy'n rhy ddrud ar hyn o bryd), sicrhau mynediad i dir (sydd ar hyn o bryd yn rhwystr mawr i lawer o fathau o brosiectau cymunedol, ond gallai adolygiad asedau eang ledled Cymru helpu yn hyn o beth), ac ymgysylltu â chymunedau lleol ar bob cam wrth ddatblygu cynlluniau datgarboneiddio lleol a chenedlaethol, gan eu galluogi i gymryd mwy o reolaeth dros y newidiadau y mae angen eu gwneud.

Yr ail siaradwr oedd **Dan McCallum** o **Awel Aman Tawe** ac **Egni Co-op.** Ategodd Dan fod angen gwaith caled i droi rhai o'r prosiectau hyn yn realiti, ond rhoddodd enghreifftiau hefyd o rai prosiectau sydd, gyda'r gefnogaeth gywir, yn gallu cael effaith wirioneddol yn gyflym, fel prosiect diweddar gyda Chyngor Casnewydd (https://www.local.gov.uk/case-studies/newport-city-council-community-renewable-energy). Pwysleisiodd Dan pa mor bwysig yw'r effaith allweddol y gall mentrau ynni cydweithredol ei chael drwy gynnwys pobl leol yn yr agenda datgarboneiddio ac amgylcheddol, a'u hannog i wneud newidiadau pwysig i'w hymddygiad. Gall y sefydliadau hyn hefyd gynnwys pobl mewn mudiadau cydweithredol a arweinir gan y gymuned yn fwy cyffredinol, ar draws gwahanol sectorau, a'u haddysgu am yr effaith wirioneddol y gallant ei chael. Nododd Dan y dylid cynnwys y gwerthoedd hyn, sef lles y gymdeithas a chydweithrediad, yng ngwaith caffael y sector cyhoeddus, gan fod cymunedau yn colli gafael ar eu hadnoddau lleol sy'n mynd i gorfforaethau rhyngwladol. Dywedodd fod ei waith diweddar yng Nghasnewydd yn astudiaeth achos wych, a'i fod am weithio mewn ffordd debyg gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Y siaradwr olaf oedd **Holly Cross** o **CARE yng Nghwm Arian.** Dywedodd Holly unwaith eto fod y broses yr oeddent wedi bod drwyddi yn anodd ac yn heriol iawn, ond bod lansio eu tyrbin gwynt yn llwyddiannus wedi cael effaith wirioneddol, o ran cynhyrchu ynni ac fel symbol o'r hyn y gall cymunedau ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd yn bwysig nodi bod yn rhaid dysgu o'r broses a'i gwneud yn haws. Dywedodd fod y tyrbin gwynt wedi arwain at wneud pethau eraill a chreu mwy o werth ychwanegol yn y gymuned leol. Roedd wedi creu swyddi ac wedi rhoi cyfle iddynt gael gafael ar fwy o gyllid a buddsoddiad, yn ogystal â rhoi sgiliau newydd a hyder newydd i'r rhai a oedd wedi gweithio arno, ac mae'r grŵp bellach wedi symud ymlaen i feysydd newydd o weithio ar ynni ac effeithlonrwydd adnoddau. Roedd rhai o'r prif wersi yn ymwneud â phroblemau o ran capasiti ar y grid a'r ffaith bod nifer o broblemau biwrocrataidd i'w datrys, a bod angen i awdurdodau lleol wneud mwy i gefnogi'r grwpiau hyn – ond dywedodd fod sawl enghraifft dda y gellir dysgu ohonynt. Ategodd Holly hefyd fod mynediad at dir ar gyfer grwpiau cymunedol yn hollbwysig.

Ar ôl i'r siaradwyr roi eu cyfraniadau, rhoddodd **Vikki Howells AS** ddiolch iddynt a gwahoddodd yr Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i roi eu barn. Soniodd **Huw Irranca-Davies AS**

am ba mor gadarnhaol ydyw bod cymaint o sefydliadau'n gweithio yn y sector hwn yng Nghymru. Roedd am nodi'r rhwystrau ymarferol i helpu'r sefydliadau hyn a sefydliadau newydd i dyfu ymhellach fyth, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig lle gallai fod llai o bobl â'r sgiliau a'r arbenigedd i neilltuo amser i'r prosiectau hyn. Nododd y broblem o ran tir yn benodol, a dywedodd mai dyma un o'r prif faterion sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd.

Dywedodd **Luke Fletcher AS** ei fod yn hapus bod hyn yn cael ei drafod, oherwydd ei bod yn agwedd hanfodol ar gyrraedd allyriadau sero net, sef y targed sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod angen dod â chymunedau gyda ni ar y daith hon, a pha mor bwysig ydyw i sicrhau proses deg o drawsnewid sy'n roi blaenoriaeth i ddileu tlodi. Ystyriodd y cwestiwn o ran sut yr ydym yn sicrhau bod cymunedau'n dod gyda ni ar y daith, a sut y gall prosiectau ynni cymunedol fod yn ateb pwysig yn hyn o beth. Soniodd **Peredur Owen Griffiths AS** hefyd fod angen sicrhau bod prosiectau fel hyn yn rhywbeth y mae cymunedau'n ei groesawu, yn hytrach na rywbeth sy'n cael ei orfodi arnynt, gan nodi y gall prosiectau o'r fath gael eu harwain gan y gymuned a chynnig ateb hollbwysig.

Rhoddodd **James Wright** o **Co-operatives UK** bersbectif ar lefel y DU. Dywedodd nad oedd gan Adran Busnes, Menter, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU (BEIS) unrhyw amcanion polisi cryf a chlir ar gyfer ynni cymunedol (cynhyrchu na gweithgareddau eraill). Yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol, roedd Gweinidog BEIS wedi cytuno y gallai cymunedau, a gweithredu cydweithredol mewn cymunedau, ysgogi newid ymddygiad fel ymgymryd â gwaith ôl-osod. Ond mae'n amlwg nad yw BEIS wedi ystyried unrhyw bolisïau cadarn yn hyn o beth. Mae Co-operatives UK yn cyhoeddi gwaith ymchwil ar fentrau cydweithredol a gweithredu ar newid hinsawdd, a datganiad ar y cyd gan fentrau cydweithredol mawr y DU cyn COP26. Un o'r pethau y bydd llywodraethau'n galw amdano fydd defnyddio cymunedau a mentrau cydweithredol fel ffordd o hwyluso'r broses o roi strategaethau sero net ar waith, yn enwedig o ran ôl-osod, gwres a defnyddio ynni.

Holodd **Harry Thompson** o'r **Sefydliad Materion Cymreig** gwestiwn am y potensial i ddeddfwriaeth roi cyfle i gymunedau gael perchnogaeth neu reolaeth dros dir cyhoeddus sy'n cael ei werthu. Roedd **Huw Irranca-Davies AS** yn credu bod hwn yn fater pwysig, ac y gall yr hyn a wnaed yn yr Alban fod yn esiampl i Gymru, gan nodi y gallai hyn fod yn gyfle i weithio ar draws y pleidiau i greu deddfwriaeth ar y cyd. Cytunodd y panelwyr y byddai hynny'n fuddiol, a gwnaethant nodi hefyd fod gofynion ariannol prosesau tendro yn aml yn golygu nad oedd modd eu defnyddio ar gyfer cynlluniau cymunedol, ac y dylid rhoi cyfle i gymunedau lleol yn gyntaf yn hytrach na gwahodd cwmnïau rhyngwladol i dendro. Gwnaethant nodi hefyd ei bod yn hanfodol rhoi cymorth arbenigol i grwpiau cymunedol i gystadlu â'r sector preifat.

Gofynnodd **Derek Walker** o **Ganolfan Cydweithredol Cymru** a allai'r sefyllfa bresennol o ran prisiau ynni yn y DU wneud prosiectau ynni cymunedol yn fwy hyfyw, er gwaethaf yr effeithiau negyddol ar ddefnyddwyr. Cytunodd **Dan McCallum**, ond dywedodd y dylai'r prosiectau ganolbwyntio mwy ar sicrhau bod trydan rhatach ar gael i bobl ac addysgu pobl am newid hinsawdd. Nododd brosiect diweddar yng Nghaerffili, lle'r oedd y model a'r prosiect yn hyfyw, ond ei fod yn cymryd gormod o amser, a bod angen diwygio ac addysgu sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y prosiectau hyn ddigwydd yn gyflym ac ar raddfa eang.

**Commented [CM(CyS|SC1]:** The English reads: "He noted a recent example of a project in Caerphilly, which had a viable model and project, but that it was taking too low…"

I've assumed that 'low' is a typo and should read 'long', but if not let me know and I'll amend the Welsh.

Gofynnodd **Glenn Bowen** o **Ganolfan Cydweithredol Cymru** am arloesi yn y sector a'r swyddi sy'n cael eu creu. Dywedodd **Rob Proctor** ei fod yn sector bach sy'n tyfu, sy'n cyflogi 79 o bobl yng Nghymru yn uniongyrchol ond yn creu mwy o swyddi'n anuniongyrchol. Nododd hefyd fod angen i'r swyddi hyn fod yn arloesol, ac y gall yr arloesi hwn ddod o sefydliadau bach ac nid dim ond adrannau ymchwil a datblygu mewn cwmnïau rhyngwladol – y math hwn o arloesi sydd ei angen i gyrraedd

sero net. Trafododd **Holly Cross** hefyd sut roedd y grwpiau hyn yn rhan annatod o gymunedau, a bod eu gwybodaeth leol am gontractwyr a chyflenwyr yn golygu bod y sector yn bendant yn creu llawer mwy o swyddi lleol yn anuniongyrchol. **Nododd Dan McCallum** hefyd foeseg y sefydliadau – er enghraifft, roeddent wedi dysgu'n ddiweddar am gam-drin hawliau dynol wrth gynhyrchu paneli solar, ac wedi newid cyflenwr o ganlyniad. Soniodd am yr angen i gyflawni'r gwaith hwn mor foesegol a chynaliadwy â phosibl – yn ddelfrydol byddai'r adnoddau'n dod o Gymru ei hun, yn hytrach nag ochr arall y byd, oherwydd y manteision amgylcheddol ac economaidd yn sgil hynny.

Yna daeth **Vikki Howells AS** â'r cyfarfod i ben, gan roi diolch i'r cyfranogwyr, y trefnwyr a'r gynulleidfa.